Cyllid & Thollau EM

Brîff gwybodaeth y Cynulliad

# Ein hagwedd tuag at gydymffurfiad treth



**Mae talu'r swm anghywir o dreth yn rhoi baich anheg ar y mwyafrif gonest o drethdalwyr. Dyna pam, rhwng 2010 a 2015, mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi £917 miliwn i gynyddu cydymffurfiad treth. Mae hyn yn cynnwys osgoi treth anghyfreithlon a'r rhai hynny sy'n ceisio arbed treth drwy weithredu o fewn amodau'r gyfraith - ond nid o fewn ei hysbryd. Mae'r brîff hwn yn esbonio ein dull o fynd i'r afael ag arbed ac osgoi treth, fel y gallwn gasglu'r swm cywir o dreth.**

## Sut y byddwn yn gwneud hyn

Ein nod yw cau'r bwlch treth, sef y gwahaniaeth rhwng swm y dreth y dylid mewn theori gael ei gasglu yn erbyn yr hyn sy'n cael ei gasglu mewn gwirionedd, drwy nifer o weithgareddau cydymffurfio allweddol. Maent fel a ganlyn:

- Nodi sut i ddelio â chwsmeriaid yn y ffordd fwyaf priodol. Mae hyn yn amrywio o'u haddysgu ynglŷn â'u cyfrifoldebau treth i ddarparu cymorth a chefnogaeth leol. Mae hefyd yn cynnwys cosbau ariannol a charcharu sylweddol ar gyfer y rhai hynny sy'n osgoi treth yn fwriadol
- Deall a rheoli risgiau i'r system dreth drwy ffocysu ar ein gwaith cydymffurfio ar draws yr ystod lawn o drethi a thollau yr ydym yn eu rheoli
- Cymryd camau i gasglu ffurflenni a thaliadau hwyr, wrth gefnogi busnesau sy'n cael gwir anhawster dros dro gyda threfniadau Amser i Dalu.
- Derbyn taliadau a chyfrif am dreth ac arian eraill drwy ein hadran bancio.
- Erbyn 2014-15, buddsoddi mewn gweithlu medrus trwy gynyddu ar y nifer o staff sy'n mynd i'r afael ag arbed, osgoi a thwyll gan tua 2,500 o bobl.
- Ffocysu ein hadnoddau ar yr achosion o risg fwyaf er mwyn lleihau arbed, osgoi ac ymosodiad troseddol
- Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd i ddadansoddi ein data yn fwy effeithiol Mae hyn yn golygu y gallwn adnabod yr achosion risg uchaf a gwneud cysylltiadau nas gwelwyd o'r blaen rhwng data yn haws
- Dylunio deddfwriaeth i atal osgoi treth heb greu bylchau.

Oherwydd bod arbed treth yn gweithredu yn llythrennol yn ôl y gyfraith, ond nid yn ysbryd y gyfraith, ni ellir fod unrhyw anghytundeb ynghylch yr hyn sydd yn ymarfer derbyniol ac yn ymarfer annerbyniol. Rydym bob amser yn herio trefniadau y credwn sy'n groes i'r hyn a fwriadwyd gan y Senedd ar gyfer y system dreth, gyda'r penderfyniad terfynol bob tro yn cael ei wneud gan y llysoedd

## Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn

Yn y blynyddoedd diwethaf mae ein dull sy'n seiliedig ar risg wedi cael llwyddiannau sylweddol:

- Mae ein cynnyrch cydymffurfio wedi mwy na dyblu mewn chwe blynedd - o £7.4 biliwn yn 2005-6 i £16.6 biliwn yn 2011-12.

- Yn y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2012, mae swm y ddyled treth sy'n ddyledus wedi gostwng gan £10 biliwn i £15.4 biliwn.
- Rydym wedi diogelu dros £1 biliwn mewn refeniw coll drwy fynd i'r afael â throseddwyr. Erbyn mis Mawrth 2012, roeddem wedi cyhuddo 545 o unigolion o droseddau, gyda 449 ohonynt yn cael eu dwyn gerbron y llysoedd a 413 ohonynt wedi eu dyfarnu'n euog - cyfradd llwyddiant yn y llys o 92 y cant.

## Sut yr ydym yn mynd i'r afael ag osgoi ac arbed treth

**Ymgyrchoedd**
Rydym yn rhedeg 4 ymgyrch cenedlaethol bob blwyddyn rhwng nawr a 2015, gyda phob un yn cynnwys o gwmpas 200,000 o drethdalwyr. Bydd yr ymgyrchoedd yn darparu cyfleoedd i bobl i roi eu materion treth mewn trefn yn wirfoddol a chydymffurfio. Ar gyfer y rhai hynny sy'n dewis peidio â chydymffurfio, bydd ystod o gamau gweithredu yn dilyn, gan gynnwys erlyniadau. Mae ein dull hyd yn hyn wedi cynhyrchu bron i £510 miliwn o ddatgeliadau gwirfoddol, ynghyd â dros £120 miliwn mewn gweithgarwch dilynol, gan gynnwys mwy na 18,000 o ymchwiliadau gorffenedig. Mae yna hefyd 23 o achosion troseddol wedi cychwyn gydag un gollfarn eisoes wedi ei diogelu.

**Tasgluoedd**
Mae gennym dimau arbenigol sy'n canolbwyntio ar sectorau uchel eu risg mewn lleoliadau lle mae yna dystiolaeth gref o osgoi treth. Disgwylir y bydd y deuddeg tasglu yn 2011-12 yn cynhyrchu dros £50 miliwn. Byddwn yn lansio 20 i 30 o dasgluoedd pellach bob blwyddyn o 2012-13, gyda lansiad y cyntaf ar ddiwedd mis Mai 2012. Maent yn cwmpasu marchnadoedd yn Llundain, cwmnïau tacsis yn Swydd Efrog a Dwyrain Canolbarth Lloegr, rhenti eiddo yn East Anglia, Llundain, Swydd Efrog a gogledd ddwyrain Lloegr a bwytai yng Nghanolbarth Lloegr.

**Alltraeth**
Mae gennym nifer o gytundebau gydag awdurdodau treth mewn gwledydd eraill. O dan Adnodd Datgelu Liechtenstein mae angen i asiantau treth a chyfryngwyr ariannol eraill ein hysbysu o gleientiaid y mae'n rhaid iddynt, o bosib, dalu treth y DU. Y cynllun gwreiddiol oedd codi tua £1 biliwn dros bum mlynedd o 2009, yn seiliedig ar tua 2000 o gofrestriadau disgwyliedig, ond mae'r nifer o gofrestriadau bron yn 3000 yn barod ac rydym yn gobeithio casglu hyd at £3 biliwn.

Ym mis Hydref 2011, cwblhaodd y DU a'r Swistir gytundeb arloesol ynghylch mynd i'r afael ag osgoi treth. Disgwylir iddo ddod i rym yn 2013, gyda deiliaid cyfrifon Swisaidd sy'n seiliedig yn y DU yn talu un taliad unigol posibl i glirio hen rwymedigaethau treth. Bydd angen hefyd i fanciau Swisaidd dalu tua £400 miliwn i'r DU o flaenllaw fel arwydd o ewyllys da.

**Timoedd cyfoeth**
Rydym wedi lleoli 200 o staff mewn chwe lleoliad ar draws y DU i ddelio gydag osgoi ac arbed gan drethdalwyr cyfoethog. Diffinnir y boblogaeth hon fel y rhai hynny sy'n ennill mwy na £150,000 a'r rhai hynny sydd â chyfoeth rhwng £2.5 miliwn ac £20 miliwn - tua 300,000 o bobl i gyd. Mae'r timoedd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol mewn ystod o faterion, gan gynnwys ymddiriedolaethau, delio ag asedau alltraeth a rheolaeth cyfoeth. Bydd uned cudd-wybodaeth arbenigol, gyda mynediad i ystod eang o wybodaeth fewnol ac allanol, yn nodi rhai o'r achosion risg uchaf. Rhwng 2012 a 2015 bydd y timoedd hyn yn cynhyrchu £520 miliwn mewn refeniw.

## Gwneud y gorau o dechnoleg newydd

**Timoedd seiberdroseddu**
Rydym wedi dod ag arbenigwyr technegol, dadansoddwyr cudd-wybodaeth ac ymchwilwyr troseddol at ei gilydd i adeiladu ar ein gallu presennol i ddelio â gwrth-dwyll seiber, gan ddefnyddio technoleg sydd wedi ei hariannu gan Raglen Seiberddiogelwch Genedlaethol pedair blynedd o hyd y Llywodraeth i amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag ymgeisiadau o dwyll.

Bydd y tîm seiberdroseddu yn:
- defnyddio offer fforensig arbenigol i gasglu cudd-wybodaeth yn erbyn seiberdroseddwyr sy'n i targedu ein systemau ad-dalu.
- darparu gwybodaeth arbenigol ar gadw ein gwasanaethau a'n cwsmeriaid yn ddiogel
- pasio deallusrwydd amser real i dimoedd gweithredu risg a diogelwch.

**Connect**
Mae Connect yn offeryn sy'n caniatáu i ni groes-gysylltu biliwn darn o ddata i ddatgelu perthnasau cudd rhwng pobl a sefydliadau na allem yn flaenorol eu nodi Am y tro cyntaf, gallwn weld, ar gyffyrddiad botwm, fwy o wybodaeth mewn un lle ar gyfer trethdalwr unigol. Mae ganddo'r gallu i ddod o hyd i anghysondebau rhwng gwybodaeth fel llog banc, incwm o eiddo a dangosyddion dull byw eraill, a'i gymharu â'r hyn y mae'r cwsmer yn ein talu mewn treth. Rydym yn ei ddefnyddio i gyfeirio ein hadnoddau yn fwy effeithiol drwy ddewis achosion yn well ar draws y sbectrwm cydymffurfio - o ymosodiadau troseddol wedi'u trefnu i nodi gwallau cyffredin.

## Gweddnewid ein dull tuag at ddyled a thaliadau

Yn 2011-12 lleihawyd balans y ddyled gan £3.8 biliwn i £15.4 biliwn. Trwy adeiladu ar y llwyddiant hynny, rydym yn gwneud defnydd effeithiol cynyddol o'n hadnoddau rheoli dyled, yn seiliedig ar wella ein dealltwriaeth o ymddygiad cwsmeriaid a'r risg. Rydym wedi datblygu'r arbenigedd yn ein canolfannau ffôn i'n galluogi i gasglu dyledion drwy gerdyn credyd neu ddebyd ac addysgu cwsmeriaid am y buddion o gydymffurfio yn y dyfodol. Mae ein rhwydwaith o asiantau gweithlu maes hefyd yn parhau i gasglu symiau uchel o ddyled drwy ymweld â'r rhai hynny y mae arian yn ddyledus ganddynt. Yn 2011-12, banciodd gweithlu maes dros £1 biliwn, bron i ddwbl y swm a gasglwyd yn y flwyddyn flaenorol. Rydym yn parhau i weithredu'n gyflym, yn gryf ac yn effeithiol yn erbyn y rhai hynny sydd yn methu ag ymgysylltu â ni, ac yn sicrhau bod dyledion yn cael eu talu drwy ddefnyddio ein partneriaid asiantaeth casglu dyledion a thrwy'r gyfundrefn codio TWE. Rydym hefyd yn gweithio yn agos gyda Swyddfa'r Cabinet ar wella ein gweithrediadau rheolaeth dyledion ar draws llywodraeth ganolog.

## I ganfod mwy

Ewch i'n gwefan: **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**